



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008

Stondin ar y Maes

Cofiwch alw yn stondin y Gymdeithas ar faes yr Eisteddfod.

Rhif y stondin yw 616-617, ac mae hi gyferbyn â Theatr y Maes a Bant a la Cart.

Os bydd angen i chi gysylltu â ni, ffoniwch ein rhif ffôn symudol - 07964 058685

Darlith Goffa Hedley Gibbard

Deddfwriaeth Ddwieithog, Cyfreithwyr a Chyfieithwyr

Yr Athro Thomas Glyn Watkin,

Prif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru

Prynhawn Mawrth yr Eisteddfod, am 2.45, ym Mhabell y Cymdeithasau

Yn ei ddarlith, bydd yr Athro Thomas Glyn Watkin yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cyfreithwyr a chyfieithwyr Cymru yn sgil y pwerau newydd sydd gan y Cynulliad i ddeddfu trwy Fesurau dwieithog. Bydd yn rhannu gwybodaeth am ei ymweliadau â chyfreithwyr a chyfieithwyr ledled Cymru sydd yn ymgymryd â gwaith cyfreithiol dwieithog. Bydd hefyd yn awgrymu dulliau o ddarparu a pharatoi ar gyfer y math yma o waith yn y dyfodol.

Gwahoddiad i dderbyniad anffurfiol

Byddwn yn cynnal derbyniad anffurfiol am 5.30 brynhawn Mawrth ar ein stondin.

Estynnwn wahoddiad i chi ymuno â ni am orig fach ddifyr i gael lluniaeth ysgafn ar ddiwedd diwrnod o eisteddfota brwd!

Gwobr Goffa Wil Petherbridge

Tudur Jones o Bontiets ger Llanelli yw enillydd Gwobr Goffa Wil Petherbridge eleni. Mae'n gyfieithydd ar ei liwt ei hun ac mae ei waith yn cynnwys gweithio i Trywydd, un o wasanaethau Menter Bro Dinefwr.

Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge i'r ymgeisydd gorau am Aelodaeth Sylfaenol y Gymdeithas, cyfieithu i'r Gymraeg, yn ystod y ddwy rownd arholi a gynhaliwyd yn Hydref 2007 ac Ebrill 2008.

Sarah Astley, a enillodd y wobwr y llynedd pan gyflwynwyd hi am y tro cyntaf, fydd yn cyflwyno'r wobwr i Tudur Jones. Cynhelir y seremoni ar y dydd Gwener am hanner dydd ar stondin y Gymdeithas.

Ar y stondin

- Ddydd Sadwrn a dydd Llun rydym wedi trefnu fod Testun Cyf yn cynnig gwasanaeth cyfieithu rhad ac am ddim i stondinwyr er mwyn sicrhau fod arwyddion stondinwyr yn cydymffurfio â'r rheol iaith.

Mae'r cynllun hwn yn debyg i'r un a gynigiwyd ddwy flynedd yn ôl yn Eisteddfod Abertawe ar y cyd ag Uned Gyfieithu San Helen. Dyma hefyd gyfraniad y Gymdeithas i gynlluniau Partneriaid Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr Eisteddfod.

- Dewch i gael hwyl yn ceisio cyfieithu ar y pryd!

Cyfieithwch ddarnau o gyfresi poblogaidd S4C, 'Y Sioe Gelf' a 'Popeth yn Wyrdd' (Cwmni Da), a '04 Wal' a 'Cwpwrdd Dillad' (Fflic). Rydym yn ddiolchgar hefyd i S4C am adael i ni ddefnyddio'r darnau hyn.

- Rhaglen hyfforddiant Awst-Medi.

Boed ar-lein neu mewn seminar, cewch wybod am y gwahanol weithdai hyfforddi sydd wedi'u trefnu ar gyfer y cyfnod cyn Arholiadau nesaf y Gymdeithas ar 4 Hydref 2008.

- Galwch draw hefyd i hawlio'ch beiro newydd!

Ar y beiro mae'r neges "Wrthi'n chwilio am gyfieithydd? / Looking for a translator/interpreter?" a chyfeiriad e-bost y Gymdeithas. Mae'n rhan o'n hymgyrch i hyrwyddo gwefan y Gymdeithas fel yr unig le i ddod o hyd i gyfieithydd cymwys.

- Gwefan newydd - bydd hon i'w gweld am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod.

Ambell ddigwyddiad arall a all fod o ddiddordeb

Dydd Llun	11.00, Stodin Prifysgol Aberystwyth - trafodaeth, dros de a theisen, am y cyfleoedd rhyngwladol i awduron, cyfieithwyr a chyhoeddwyr. 1.00, y Babell Lên - Yr Iaith Gymraeg yng Nghaerdydd, sgwrs gan Owen John Thomas.
Dydd Mawrth	11.00, y Babell Lên - O'r Bae i ben Craig Cibwr, enwau lleoedd a strydoedd Caerdydd gan Gwynedd O.Pierce.
Dydd Iau	5.00, y Babell Lên - darlith Mudiadau Dathlu'r Gymraeg. 5.00, ym Mhabell y Cymdeithasau - Cynllunwyr Iaith Cymru.